

## Cwrs Sylfaenol Ceredigion Uned Pedwar Deg

### Dweud **be**(th) **ddylech chi** (ei w)**neud**

*Saying what you ought to do*

### **Be**(th) **ddylech chi** (ei) (w)**neud?**

Dylwn i adolygu bob nos

Dylwn i ymarfer

Dylwn i edrych ar 'Pobol y Cwm'

Dylwn i siarad Cymraeg amser coffi

*What should you do?*

### **Ddylwn i ddim poeni**

Ddylwn i ddim ysgrifennu yn y dosbarth

Ddylwn i ddim siarad Saesneg

Ddylwn i ddim smocio

*I shouldn't worry*

### **Beth ddylet ti fod wedi** (ei) (w)**neud?**

Dylwn i fod wedi mynd

Dylwn i fod wedi gofyn

Dylwn i fod wedi dweud

Ddylwn i ddim bod wedi mynd

*What should you have done?*

### **Beth ddylai Ffred a Sandra** (ei) (w)**neud?**

Dylai fe olchi'r llestri

Dyle hi (w)neud yr ardd

Dylen ni briodi

Dylen nhw fod yn hapus

*What should Ffred and Sandra do?*

### **Dylet ti fynd ma's mwy!**

### **Ddylet ti ddim poeni gymaint!**

#### Llythyr

Annwyl Ffred,

Diolch am dy lythyr. Paid poeni am y ei - mae e'n gwella. Dyw Gordon ddim cystal: mae e yn yr ysbyty o hyd. Mae e'n grac iawn achos mod i'n mynd i adael.

Ddylwn i ddim bod wedi dweud wrtho fe tra oedd e'n dost, ond mae'n rhy hwyr nawr.

Gyda llaw, dw i wedi bwcio gwyliau i ni'n dau pan fyddi di wedi dod ma's - wythnos yn Tenerife. Bydda i wrth ddrws y carchar erbyn saith o'r gloch.

Cofion,  
Sandra

#### **Geirfa**

mwy	- more
cymaint	- so much
cystal	- so good / as well
gormod	- too much
gyda llaw	- by the way
bwcio (bwci-)	- to book
crac	- angry
drws	- door
smocio (smoci-)	- to smoke
gwella (gwell-)	- to get better
tra	- while
i ni'n dau	- for us both



Dylwn i adolygu bob nos!

## Gwaith Cartre Uned 40

### Cyfieithwch:

1. You should have told him.
2. Gordon isn't as good.
3. I shouldn't speak English.
4. You shouldn't have asked.
5. I should practise.
6. They should get married.

### Atebwch yn ôl yr enghraifft:

- |                                           |                               |
|-------------------------------------------|-------------------------------|
| A. Mae pen tost 'da fi.                   | B. Dylech chi gymryd aspirin. |
| A. Mae hi'n gweithio gormod.              | B. _____                      |
| A. Does dim arian 'da fe.                 | B. _____                      |
| A. Mae John a Mair yn moyn dysgu Cymraeg. | B. _____                      |
| A. Mae e wedi blino.                      | B. _____                      |
| A. Dw i ddim yn gallu siarad Ffrangeg.    | B. _____                      |
| A. Mae hi'n mynd i gael babi.             | B. _____                      |
| A. Mae'r plant yn ddrwg.                  | B. _____                      |

### Pwyntiau i'w cofio:

1. Mae 'dylwn i', 'dylet ti', etc. fel yr amodol: (dylwn i', 'dylet ti', etc. have the same endings as the conditional), ac maen nhw'n achosi TM (and they cause the following verb-noun to mutate), e.e. 'dylwn i **f**ynd'.

<b>Dylwn i</b>	<i>I should</i>
<b>Dylet ti</b>	<i>You should (fam.)</i>
<b>Dylai fe / hi</b>	<i>He / she should</i>
<b>Dylen ni</b>	<i>We should</i>
<b>Dylech chi</b>	<i>You should</i>
<b>Dylen nhw</b>	<i>They should</i>
<b>Dylai'r plant</b>	<i>The children should</i>

2. As with other forms of the conditional, 'dylai' is characterised by the vowel 'e' in casual speech:

<b>Dylen i</b>	<i>I should</i>
<b>Dylet ti</b>	<i>You should (fam.)</i>
<b>Dyle fe / hi</b>	<i>He / she should</i>
<b>Dylen ni</b>	<i>We should</i>
<b>Dylech chi</b>	<i>You should</i>
<b>Dylen nhw</b>	<i>They should</i>
<b>Dyle'r plant</b>	<i>The children should</i>